**Tasg 1**

# Yn y papur newydd

1. Defnyddiwch eich dychymyg i ysgrifennu 3 pharagraff o adroddiad papur newydd o dan y penawdau hyn:

    i. Paneli solar yn difetha harddwch tirwedd Arfon. Ffermwyr a mewnfudwyr yn anghytuno!
    ii. Adeiladu stad o dai ar gyrion Aberteifi yn gwylltio pobl leol

Cofiwch

- gynnwys y manylion angenrheidiol e.e. ble mae'r gwrthdaro'n digwydd, pwy sy'n gwrthdaro, y cyffro
- dadleuon y rhai sydd o blaid a'r rhai sydd yn erbyn
- dyfyniadau o eiriau pobl.

2. Ysgrifennwch bennawd bachog a chofiadwy (capsiwn) ar gyfer y ffotograffau yma o wrthdaro.

Penderfynwch pwy yn y dosbarth sydd wedi llunio'r capsiwn gorau.

3. Beth, yn eich barn chi, yw achos y gwrthdaro yn y lluniau? Ar lafar, trafodwch beth ddigwyddodd cyn tynnu'r llun a beth ddigwyddodd wedyn.

| **Llun 1** |
|---|
| Cyn tynnu'r llun: |
| Ar ôl tynnu'r llun: |

| **Llun 2** |
|---|
| Cyn tynnu'r llun: |
| Ar ôl tynnu'r llun: |

**Llun 3**

Cyn tynnu'r llun:

Ar ôl tynnu'r llun:

4. Beth yw agwedd y person ysgrifennodd yr hysbyseb LARWM MOSGITO at bobl ifanc? Pam rydych chi'n dweud hyn? Rhowch 2 reswm.

i)

ii)

5. Ysgrifennwch baragraff yn mynegi eich barn ar **un** o'r rhain:

Mae merched yn haeddu cael statws cyfartal â dynion.

neu

Dylai hwliganiaid pêl-droed gael eu cosbi'n fwy llym.

Gwnewch ymchwil bersonol i gasglu tystiolaeth er mwyn cefnogi eich safbwynt cyn dechrau.

6. Mae gwahanol ffurfiau yn y detholiad o'r papur newydd. Dewiswch 3 ffurf ac ysgrifennwch 3 o nodweddion pob ffurf, gan roi enghreifftiau.

| FFURF | NODWEDD | ENGHRAIFFT |
|---|---|---|
| | 1. | |
| | 2. | |
| | 3. | |
| | 1. | |
| | 2. | |
| | 3. | |
| | 1. | |
| | 2. | |
| | 3. | |